## ATODLEN 2

Rheoliadau 8(3)(c), 9(5), a 10(2)(c)

### YR WYBODAETH SY'N OFYNNOL MEWN PERTHYNAS Â DARPARWYR A RHEOLWYR COFRESTREDIG ASIANTAETH A PHERSONAU SYDD WEDI'U HENWI I DDIRPRWYO AR GYFER PERSON COFRESTREDIG

**1.** Enw, cyfeiriad, dyddiad geni a Rhif ffôn.

**2.** Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.

**3.** Naill ai—

(a) os oes angen tystysgrif at ddiben sy'n ymwneud ag adran 115(5)(ea) o Ddeddf yr Heddlu 1997(**1**) (cofrestru o dan Ran II o Ddeddf Safonau Gofal 2000), neu os yw'r swydd yn dod o fewn adran 115(3) neu (4) o'r Ddeddf honno, tystysgrif cofnod troseddol fanwl a ddyroddwyd o dan adran 115 o'r Ddeddf honno; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddwyd o dan adran 113 o'r Ddeddf honno,

gan gynnwys, os yw'n gymwys, y materion a bennir yn adrannau 133(3A) a 115(6A) o'r Ddeddf honno a'r darpariaethau canlynol pan fyddant mewn grym, sef adran 113(3C)(a) a (b) ac adran 115(6B)(a) a (b) o'r Ddeddf honno.

**4.** Dau dystlythyr ysgrifenedig gan gynnwys tystlythyr sy'n ymwneud â'r cyfnod cyflogaeth diwethaf nad oedd wedi para llai na thri mis.

**5.** Os yw person wedi gweithio gynt mewn swydd a oedd yn cynnwys gwaith gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio, cadarnhad o'r rhesymau pam y daeth y swydd honno neu'r swyddogaeth honno i ben ac eithrio os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau cadarnhad o'r fath ond nad yw ar gael.

**6.** Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymwysterau a hyfforddiant perthnasol.

**7.** Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau yn y gyflogaeth.

**8.** Os unigolyn yw'r person, adroddiad gan ymarferydd meddygol cyffredinol ynghylch a yw'r person yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol (yn ôl y digwydd) i redeg, rheoli neu fod â gofal dros asiantaeth.

**9.** Manylion cofrestriad gydag unrhyw gorff proffesiynol neu aelodaeth ohono.

**10.** Manylion unrhyw yswiriant indemnio proffesiynol.

(**1**) 1997 p.50.